Together
For
Change

# Prosiect Cymunedol 4Wards Community Project
# Project report
# July 2022

Jessie Buchanan, Rachel Kelway-Lewis, Ella Starling,
Becky Lloyd & Sue Denman

UK Government
Llywodraeth y DU

This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund
Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU

Together
For
Change

**Cydnabyddiaethau**

Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb a gyfrannodd at gynnwys yr adroddiad hwn ar draws 4Wards Llanrhian, Dwyrain Aberdaugleddau, Tyddewi a Solfach a Breudeth.
*Ar gyfer aelodau'r grŵp llywio, gweler atodiad 1*



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

Together
For
Change

## Contents


1. Cyflwyniad a chefndir .......... 5
1.1 Cyflwyniad .......... 5
1.2 Cefndir .......... 5
1.3 Amcanion y Prosiect 4 Ward .......... 6
2. Dull Gweithredu Prosiect 4Wards .......... 6
2.1 Dull y Prosiect .......... 6
3. Lles yn y Wardiau .......... 7
3.1 Ward Llanrhian .......... 7
3.1.1 Lles cymunedol .......... 7
3.1.2 Pa asedau sy'n cefnogi lles cymunedol? .......... 7
3.2 Ward Solfach a Breudeth .......... 8
3.2.1 Lles cymunedol .......... 8
3.2.2 Cysylltiad .......... 9
3.2.3 Diogelwch .......... 9
3.2.4 Iechyd .......... 9
3.2.5 Pa asedau sy'n cefnogi lles cymunedol? .......... 9
3.3 Ward Tyddewi .......... 10
3.3.1 Lles Cymunedol .......... 10
3.3.2 Pa asedau sy'n cefnogi lles cymunedol? .......... 10
3.4 Ward Dwyrain Aberdaugleddau .......... 11
3.4.1 Lles cymunedol .......... 11
3.4.2 Pa asedau eraill sy'n cefnogi lles cymunedol? .......... 11
3.4.3 Materion sy'n peri pryder ar draws y Wardiau .......... 12
3.5 Crynodeb .......... 12
4. Digwyddiad cymunedol .......... 12
4.1 Pwyntiau a godwyd gan y rhai a oedd yn bresennol .......... 13
4.1.1 Meithrin cysylltiadau .......... 13
4.1.2 Ystyriaethau polisi .......... 13
4.1.3 Cynghorau Tref a Chymuned .......... 13
4.1.4 Busnesau .......... 13
4.1.5 Gwirfoddoli .......... 14
4.2 Yr arolwg .......... 14
5. Ystyriaethau pellach o ran cyfleoedd i gydweithio .......... 14





UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

Together
For
Change

5.1 Ward Llanrhian ..... 14
5.2 Ward Solfach Breudeth ..... 15
5.3 Ward Tyddewi ..... 15
5.4 Ward Dwyrain Aberdaugleddau ..... 15
6. Y Camau Nesaf ..... 16
Atodiad 1 - Grŵp llywio ..... 17
Atodiad 2 - Cynllun 10 Pwynt Gyda’n Gilydd dros Newid ..... 18
Atodiad 3 - Amserlen y Prosiect ..... 19
Atodiad 4 - Canlyniadau'r arolwg ..... 20



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

Together
For
Change

# 1. Cyflwyniad a chefndir

## 1.1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar ganfyddiadau gwaith Prosiect 4Wards a oedd yn rhan o waith ymchwil ar sut yr oedd trigolion pedair ward Llanrhian, Dwyrain Aberdaugleddau, Solfach a Thyddewi yn teimlo am fywyd yn eu cymunedau, sut yr oeddent yn credu y gellid gwella a chynnal eu bywydau a'u ffyniant a holi a allai cydweithio rhwng y Wardiau helpu'r ymdrech honno. Cafodd y Prosiect £61,000 o Gronfa Adfer Cymunedol y DU. Cafodd ei lansio yn swyddogol ym mis Mawrth 2022 a rhoddwyd yr enw Prosiect 4Wards arno. Dechreuodd rhai cyfarfodydd cynllunio yn gynt ym mis Rhagfyr 2021. Daeth y Prosiect i ben ym mis Mehefin 2022, ond rhagwelir y bydd datblygiadau pellach yn cael eu gwneud yn y dyfodol. Arweiniwyd y gwaith o lunio cais am gyllid gan Gyda'n Gilydd dros Newid (Cartref – Gyda'n Gilydd dros Newid) ar y cyd gyda'r Gymuned, y Dref a Chynghorwyr Sir y pedair Ward.

## 1.2 Cefndir

Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at rôl grwpiau a sefydliadau cymunedol wrth gefnogi lles eu trigolion. P'un a yw'r penderfyniadau wedi'u gwneud yn ffurfiol neu'n anffurfiol a ph'un a ydynt yn newydd neu eisoes yn bodoli, roedd y grwpiau a'r sefydliadau wedi gweithredu yn gyflym i ddiogelu iechyd corfforol a meddyliol eu trigolion.

Mae polisïau Llywodraeth Cymru, yn benodol, y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Cymru 2015 (WFGA), wastad wedi pwysleisio natur gyfannol lles a rôl hanfodol cymunedau yn y gwaith o'i annog. Mae'r gwaith o weithredu ar hyn wedi bod yn araf, ac mae cryn dipyn o waith i'w wneud eto: mae llais grwpiau cymunedol yn cael ei glywed fel arfer safonol; mae pŵer yn cael ei rannu gyda'r sector cyhoeddus; a chaiff trafodaeth ei gynnal wrth wneud penderfyniadau strategol am faterion sy'n effeithio arnynt.

Heb os, mae pandemig COVID wedi cyflymu'r newid hwn. Roedd Prosiect 4Wards wedi manteisio ar hyn i weld a allai dulliau cymunedol a chydweithio rhwng y cymunedau sydd wedi'u gwreiddio mewn strwythurau a chydberthnasau democrataidd bennu dyfodol sy'n diwallu anghenion cymunedau yn well.

Cafodd y gwerthoedd, yr egwyddorion a'r prosesau a oedd yn sail i Brosiect 4Wards eu diffinio mewn dau gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2020. Roedd arweinwyr cymunedol, canolwyr y trydydd sector ac arweinwyr y sector cyhoeddus yn Sir Benfro a Bwrdd Iechyd Rhanbarthol Hywel Dda wedi mynychu'r cyfarfodydd. Mae modd gweld cofnodion y ddau gyfarfod drwy ddilyn y dolenni canlynol: Microsoft Word - 18:6:20 Adroddiad cyfarfod (SAESNEG) .docx (tfcpembrokeshire.org) <https://www.tfcpembrokeshire.org/wp-content/uploads/2021/01/18_6_20-Meeting-report-ENGLISH-.pdf>. Microsoft Word - 30:6:20 Adroddiad cyfarfod (SAESNEG).docx (tfcpembrokeshire.org) <https://www.tfcpembrokeshire.org/wp-content/uploads/2021/01/30_6_20-Meeting-report-ENGLISH.pdf>. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar sut y gall cymunedau gael eu hintegreiddio'n well a'u cefnogi i roi dull cyfannol o ymdrin â lles ar waith mewn cymunedau. Mae dull cyfannol yn cydnabod y caiff lles ei effeithio gan gyfuniad cymhleth o ffactorau gwahanol: economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, dysgu gydol oes, trafnidiaeth ac ati. Mae'r ffactorau hyn yn galw am ddatrysiadau polisi cydgysylltiedig, sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth â sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Daethpwyd i gytundeb a chafodd 'Cynllun Deg Pwynt' ei greu i Sir Benfro yr oedd sefydliadau wedi ymrwymo iddo'n anffurfiol, gweler atodiad 2 Together-for-Change-10-Point-Plan-ENGLISH.pdf (tfcpembrokeshire.org) <https://www.tfcpembrokeshire.org/wp-content/uploads/2021/04/Together-for-Change-10-Point-Plan-ENGLISH.pdf>. *Ewch i'r wefan i weld y dogfennau yn Gymraeg.*



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

## 1.3 Amcanion y Prosiect 4 Ward

Yng nghyd-destun cyflawni Cynllun Deg Pwynt Sir Benfro:

- Meithrin mewnwelediad a gwybodaeth am fywyd a ffyniant yn y cymunedau sy’n rhan o’r Wardiau sy’n cymryd rhan.
- Rhannu’r wybodaeth honno a’i defnyddio i wella cysylltiadau yn y Wardiau a rhwng y Wardiau.
- Cytuno ar gynlluniau a blaenoriaethau eang ar gyfer cydweithio a gweithredu ar y cyd i wella a chynnal lles y boblogaeth.
- Gwella dealltwriaeth a synergeddau rhwng darpariaeth gwasanaethau statudol ac anghenion lleol.

# 2. Dull Gweithredu Prosiect 4Wards

Comisiynwyd adroddiad annibynnol, o’r enw'r Adroddiad Asedau i ddechrau’r broses o gasglu data yn y pedair Ward a llywio’r cam o gasglu data ansoddol ar gyfer yr ymholiad dilynol. Roedd awdur yr adroddiad wedi ehangu sgôp y gwaith i gynnwys sail resymegol er mwyn mabwysiadu dull o ddatblygu cymunedol sy’n seiliedig ar asedau a chynnwys enghreifftiau o roi’r dull hwn ar waith yn llwyddiannus. Mae datblygu cymunedol sy’n seiliedig ar asedau (cyfeirir ato fel ABCD o hyn ymlaen) wedi’i selio ar yr egwyddor o edrych ar gryfderau’r gymuned yn hytrach na’r gwendidau.
Gellir gweld yr adroddiad Asedau yma 4 WARDS Short read report 310322.docx (tfcpembrokeshire.org) <https://www.tfcpembrokeshire.org/wp-content/uploads/2022/05/4-WARDS-Short-read-report-310322.pdf>.
Cafodd pedwar Ymchwilydd Gweithredu Cymunedol (CAR) eu recriwtio drwy broses recriwtio agored. Roedd dau o’r ymgeiswyr llwyddiannus yn byw yn Wardiau Solfach a Thyddewi ac roeddent yn gwneud gwaith ymchwil ar eu cymunedau eu hunain. Roedd y ddau ymchwilydd arall hefyd yn byw yn Nhyddewi ac roeddent wedi cytuno i wneud gwaith ar Wardiau Llanrhian a Dwyrain Aberdaugleddau. Oherwydd newid mewn amgylchiadau, roedd Cydlynydd 4Wards (Cydlynydd Gyda’n Gilydd dros Newid hefyd) wedi cymryd drosodd y gwaith ymchwil yn ystod 6 wythnos olaf yr ymchwil Prosiect yn Nwyrain Aberdaugleddau. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau gan drigolion Llanrhian a Dwyrain Aberdaugleddau. Roedd gan yr ymgeiswyr llwyddiannus gefndir o waith y trydydd sector. Roedden nhw wedi gweithio’n wirfoddol yn bennaf, ac roedd gan y ddau brofiad rhyngwladol.
Roedd y CARau wedi amrywiaeth o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb gan gynnwys sesiynau briffio a gweithdai a drefnwyd gan Gydlynydd y Prosiect. Pwrpas y rhaglen gynefino oedd i feithrin ymdeimlad o dîm a datblygu sail gyffredin o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y tasgau. Roedd sesiynau lles hefyd yn rhan o’r rhaglen.  Gweler atodiad 3 am amlinelliad o’r rhaglen gynefino.

## 2.1 Dull y Prosiect

Roedd y CARau wedi dechrau ar eu gwaith drwy adolygu dogfennau lleol a chasglu canfyddiadau gwaith ymchwil blaenorol sy’n berthnasol i’r Prosiect. Roeddent hefyd wedi treulio’r rhan fwyaf o’r amser a neilltuwyd yn cyfweld ag unigolion a grwpiau i gael cipolwg ar dri chwestiwn cyffredinol, a oedd yn bwysig iawn i’r gwaith:

1. Sut ydych chi’n teimlo am fyw yn eich cymuned?
2. Ydych chi’n teimlo y gellid gwella eich lles, ac os felly, sut?
3. A fyddai’n helpu pe bai’r Wardiau’n cydweithio, ac os felly, sut y dylent wneud hynny?



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

Roedd pob CAR yn cadw cofnod gweithgaredd a chofnod o'u canfyddiadau. Trafodwyd y rhain yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r gwaith ymgysylltu ym mhob Ward.

| Ward | Unigolion yr ymgysylltwyd yn uniongyrchol â nhw | Grwpiau a fynychodd / ymgysylltwyd â nhw |
|---|---|---|
| **Llanrhian** | 29 | 10 |
| **Dwyrain Aberdaugleddau** | 20 | 4 |
| **Solfach** | 108* | 10 |
| **Tyddewi** | 87* | 4 |
| **** Ac ymgysylltiad ar y cyd â phobl ifanc Wardiau** Solfach a Thyddewi | 102 | 4 |

Ffurfiwyd Bwrdd Prosiect cynhwysfawr yn cynnwys y CARau, y gwleidyddion a oedd yn rhan o'r ymchwil, a phersonél Gyda'n Gilydd Dros Newid. Roedd y Cynghorwyr a phersonél Gyda'n Gilydd Dros Newid wedi bod mewn cyswllt cyn penodi'r CARau i lunio'r cais am grant a gosod sylfeini'r Prosiect cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol i ddechrau ar y gwaith. Cynhaliwyd tri chyfarfod cyn recriwtio: un wyneb yn wyneb a dau ar-lein. Ar ôl penodi'r CARau, cynhaliwyd dau gyfarfod mewn lleoliadau cymunedol gwahanol a dau ar-lein. Roedd y CARau wedi mynychu'r cyfarfodydd hyn.

# 3. Lles yn y Wardiau

Mae'r crynodebau canlynol yn dod o adroddiadau penodol y Ward (dolen i'w darparu). Trafodwyd y data ar lefel Ward mewn cyfarfodydd Bwrdd Prosiect ac mewn cyfarfod busnes i arweinwyr prosiect cymunedol ar 24 Mai 2022, i ddechrau tynnu sylw at y themâu a allai roi cyfleoedd i gydweithredu ar draws Wardiau.

## 3.1 Ward Llanrhian

### 3.1.1 Lles cymunedol

Drwy gydol y gwaith ymchwil, yr elfen a gafodd ei chrybwyll fwyaf wrth ystyried lles (neu'r syniad o 'fyw yn dda', term a oedd yn cael ei ffafrio gan y gymuned) oedd "**cysylltiad**":

- Adnabod ei gilydd.
- Rhannu gwybodaeth a phrofiadau.
- Cwrdd â phobl o'r un anian.
- Bod ag ymdeimlad o berthyn.
- Dibynnu ar y rhwydweithiau cyfathrebu ledled y Ward, oherwydd poblogaeth wasgaredig.

### 3.1.2 Pa asedau sy'n cefnogi lles cymunedol?

Daeth 14 thema wahanol i law o'r wybodaeth a gasglwyd yn ymwneud ag asedau a chryfderau lles cymunedol (gweler y crynodeb isod).



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*




Roedd grwpiau cymunedol yn cael eu hystyried fel yr ased mwyaf i les trigolion. Roeddent yn rhoi cymorth ac yn hwyluso rhyngweithio cymdeithasol. Nodwyd bod Prosiect Cysylltu Cymuned Llanrhian wedi helpu pobl i gael eu hysbysu ac i wneud cysylltiadau rhwng y trigolion. Roedd Gwelliant Trefin Improvement (GTI) hefyd yn cael ei werthfawrogi am gefnogaeth eang y sefydliad ac am ei waith o drefnu a chynnal digwyddiadau.

Roedd digwyddiadau cymunedol yn rhoi cyfleoedd i bobl ddod ynghyd a dathlu a chefnogi ei gilydd, yn enwedig yn y gymuned ffermio. Soniwyd am ddigwyddiadau fel y Daith Tractors sawl gwaith, sydd, er nad ydynt yn cael eu cynnal yn aml bellach, yn cynnig cyfle hollbwysig i drigolion ddod at ei gilydd.

Roedd rhinweddau pobl leol hefyd yn cael eu hystyried fel caffaeliad, gan gynnwys yr ymdeimlad o ymddiriedaeth, cymdogaeth ac agosatrwydd. Rhoddwyd sylw i aelodau gweithgar o'r gymuned am eu cyfraniad egnïol a'u cyfraniad gwybodus at fywyd cymunedol.

Roedd asedau ffisegol y gymuned hefyd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae pum neuadd gymunedol ar gael yno i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau. Cafodd Neuadd Ysgol Croesgoch ei gynllunio'n benodol i fod yn fan cymunedol gyda mynediad allanol iddo sy'n ei wneud yn addas ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Caiff tafarndai lleol eu gwerthfawrogi fel canolfannau cymdeithasol, ac fel mannau cyfarfod anffurfiol i gymdeithasu ynddynt.

## 3.2 Ward Solfach a Breudeth

### 3.2.1 Lles cymunedol

Roedd lles y gymuned hon yn gysylltiedig â'r cysylltiad rhwng pobl, diogelwch ac iechyd. (Gweler isod)



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*




### 3.2.2 Cysylltiad

- Cysylltiadau cymdeithasol.
- Byw mewn cymuned garedig a chyfeillgar, lle gallwch fynd am dro a dod i sgwrsio gyda thrigolion eraill.
- Nabod cymdogion a byw ymhlith wynebau cyfarwydd.
- Cymorth a gofal fel y gwelwyd yn ystod y pandemig.
- Cymdogaeth: cefnogi'i gilydd mewn modd anffurfiol gan barchu ffiniau.

### 3.2.3 Diogelwch

- Tai: y gallu i fforddio byw yn y gymuned drwy rentu neu brynu eiddo.
- Cyflog byw, cyflogaeth barhaol gyda chyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen.
- Diogelwch o ran gallu fforddio bwyd ac argaeledd bwyd.
- Diogelu'r amgylchedd naturiol sy'n cefnogi bywyd cymunedol a lles.

### 3.2.4 Iechyd

- Iechyd meddwl ac iechyd corfforol.
- Pwysigrwydd o gadw meddygfa leol.

### 3.2.5 Pa asedau sy'n cefnogi lles cymunedol?

Mae grwpiau a sefydliadau, er enghraifft Gofal Solfach a Chlwb Cinio, yn helpu i wneud cysylltiadau cymdeithasol ac yn atal unigrwydd, yn enwedig ymysg trigolion hŷn.  Mae digwyddiadau cymunedol fel Gŵyl Edge hefyd yn chwarae rhan bwysig yn hyn o beth. Mae'r Neuadd Goffa a Chlwb Cymunedol Solfach yn galluogi pobl i ddod at ei gilydd mewn cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae'r tafarndai yn cynnal digwyddiadau meic agored a chwisiau, ac maen nhw'n cynnig rhywle anffurfiol lle gall y gymuned gymdeithasu gyda ffrindiau a theulu. Roedd Bayview Stores, siop leol y pentref lle mae staff cyfeillgar yn gwerthu nwyddau o ddydd i ddydd, yn cael ei weld fel ased pwysig hefyd.



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

## 3.3 Ward Tyddewi

### 3.3.1 Lles Cymunedol

Ystyriwyd mai cysylltiad, pwrpas a diogelwch oedd y prif ffactorau a oedd yn effeithio ar les yn y Ward hon.

- Y cyfle i gymryd rhan a dod ynghyd ag eraill yn y gymuned, drwy'r ysgol leol a grwpiau crefyddol sy'n chwarae rhan bwysig mewn meithrin cysylltiadau.
- Yr ymdeimlad o ysbryd cymunedol a welwyd gan y Befrienders Group a'r Food Pod wrth iddynt gefnogi trigolion yn ystod y pandemig.
- Teimlo'n ddiogel yn yr ardal.
- Bod â theulu sy'n byw yn lleol.
- Cymdogion cyfeillgar y gallent sgwrsio â nhw.

### 3.3.2 Pa asedau sy'n cefnogi lles cymunedol?

Roedd y ddelwedd isod yn cyflwyno'r themâu allweddol sy'n deillio o'r gwaith ymchwil yn y Ward.




Mae Ysgol Penrhyn Dewi, y Gadeirlan a'r capeli, ac Oriel y Parc a Chyngor y Ddinas yn trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau i'r gymuned gymryd rhan ynddyn nhw, ynghyd â digwyddiadau a gwyliau sy'n atgyfnerthu'r ymdeimlad o gysylltiad cymunedol. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys grwpiau celf, barddoniaeth a llenyddiaeth, tennis, pêl-rwyd i fenywod, achub bywyd, syrffio a bowls dan do. Mae'r clwb rygbi yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae llawer o gyfleoedd gwirfoddoli yn bodoli gan gynnwys gyda'r RNLI, gyda'r orsaf dân, a gyda mentrau newydd fel Câr-Y-Môr. Yn ogystal â'r asedau dinesig a'r sefydliadau, er enghraifft, Tŷ Certis, Tŷ Pererin, Neuadd y Ddinas, a'r Clwb Rafa, mae nifer o fusnesau sy'n cynnig gostyngiad o ran costau i grwpiau.
Ceir ymdeimlad o falchder yn yr amgylchedd naturiol, yr arfordir a'r môr. Mae'r trigolion yn teimlo cyfrifoldeb i ddiogelu'r amgylchedd, ac oherwydd hyn, Tyddewi yw'r Ddinas 'Caru Gwenyn' gyntaf yng Nghymru, sydd â llwybr pryfed peillio a digwyddiad gerddi agored. Mae pobl yn gwirfoddoli yn Eco Dewi, gan ofalu am yr ardd gymunedol ac yn glanhau traethau ac yn cynnal ymgyrchoedd amgylcheddol.



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

## 3.4 Ward Dwyrain Aberdaugleddau

### 3.4.1 Lles cymunedol

Y prif themâu a oedd yn sail i les oedd cysylltiadau a balchder. Mae’r ddelwedd isod yn tynnu sylw at yr elfennau allweddol sy’n cyfrannu at les a rhoddir enghreifftiau o ymdrechion llwyddiannus hefyd.




### 3.4.2 Pa asedau eraill sy'n cefnogi lles cymunedol?

Yn ogystal â’r bobl sy’n byw yn y gymuned, soniwyd am nifer o asedau ffisegol. Mae’r siop a swyddfa bost Mount yng nghanol Ystâd Mount. Mae ar agor 7 diwrnod yr wythnos ac mae yno amrywiaeth fach o fwyd, a gwasanaeth post llawn. Mae'n ased hanfodol yn y gymuned fel gwasanaeth hygyrch a chyfleus. Mae Canolfan Gymunedol Mount yn cynnal cyrsiau a gweithgareddau byrdymor yn ymwneud â bwyd, garddio a lles. Cynhelir prosiectau cydweithredol gyda Mind Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro ac ymddiriedolaeth y GIG. Caiff sesiynau rheolaidd eu trefnu gan Ymddiriedolwyr gan gynnwys clwb cinio wythnosol a bingo i’r teulu bob pythefnos. Gyda’r ffocws cynyddol ar fannau awyr agored, gwelir mwy o ddefnydd o ragnodi cymdeithasol ac mae Canolfan Gymunedol Mount yn gweithio gyda sefydliad Coed Lleol ar hyn o bryd i gynnig cwrs 6 wythnos o’r enw ‘Back to Nature’ yng Nghoetir Mount.

Mae diwydiant yn nodweddiadol iawn o Aberdaugleddau ac mae’r cymuned yn ei weld fel cryfder hefyd. Mae’n cysylltu pobl drwy dreftadaeth diwydiannau cysylltiedig, er enghraifft, platwyr, weldwyr, pobl sy’n gweithio yn y gweithfeydd petrogemegol. Mae’r clybiau chwaraeon yn rhan bwysig o’r gymuned wrth i rieni gael cyfle i ddod at ei gilydd.

Mae adeiladau Aberdaugleddau ar agor i bobl leol ac ymwelwyr. Mae’r adeiladau hynny yn cynnwys Theatr y Torch, Gwesty’r Glannau a Datblygiad y Glannau, canolfan siopa annibynnol, Canolfan Hamdden Aberdaugleddau, Canolfan Islamaidd Hamad Bin Khalifa, Mosg Musafir Khana, nifer o eglwysi a chapeli, yr Amgueddfa Forol a Threftadaeth a Chanolfan Pill. Mae’r clybiau ar gael i bobl ifanc gan gynnwys y Cadetiaid Môr, Cadetiaid y Fyddin, a grwpiau ieuenctid fel Youth Matters Aberdaugleddau.

Mae Fframwaith Adfywio 2018 ar gyfer Aberdaugleddau yn gysylltiedig â chynnydd mewn buddsoddiad mewn twristiaeth ac yn y gwaith o gynyddu poblogrwydd Aberdaugleddau fel lle



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

gwyliau. Fodd bynnag, nid yw manteision twristiaeth yn cael ei rannu'n gyfartal am fod trafnidiaeth yn y dref yn wael iawn ac mae'r cyfleoedd gwaith yn dymhorol ac yn talu'n wael gan amlaf.
Caiff perthnasau da rhwng sefydliadau eu hystyried fel ased sylweddol e.e. gwaith Canolfan Gymunedol Mount ac Ysgol Aberdaugleddau o roi cinio Nadolig i drigolion yr Ystâd.

### 3.4.3 Materion sy'n peri pryder ar draws y Wardiau

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, aeth y Prosiect 4Wards ati i ymdrin â'r ymholiad drwy edrych ar asedau. Roedd hyn yn rhoi agwedd gadarnhaol ar y gwaith ymchwil. Fodd bynnag, roedd yr ymchwilwyr wedi canfod nifer o broblemau wrth gynnal cyfweliadau a thrafodaethau; problemau yr oedd y trigolion yn credu y gellid eu gwella. Codwyd y posibilrwydd o gydweithio ar draws y Wardiau i ymdrin â rhai o'r problemau hefyd. Roedd y materion yn aml yn ymwneud â phobl ifanc a phryderon ynghylch eu dyfodol:

- Diffyg tai fforddiadwy, i'w prynu a'u rhentu.
- Dibyniaeth ar waith tymhorol sy'n talu'n wael heb unrhyw ragolygon i ddatblygu ymhellach.
- Y seilwaith trafnidiaeth gwael sy'n effeithio ar lawer o bobl mewn trefi ac mewn pentrefi gwledig.
- Gwasanaeth gofal cymdeithasol sydd yn amlwg dan bwysau mawr.
- Effaith twristiaeth, sydd yn effeithio'n negyddol ar gymunedau, er bod ganddo effeithiau cadarnhaol hefyd.

Roedd y materion uchod hefyd yn gysylltiedig â phryderon am yr amgylchedd ac anghydraddoldebau cynyddol ymysg y trigolion.

## 3.5 Crynodeb

Roedd y crynodebau'n ymdrin â chanfyddiadau'r trigolion, fesul Ward, ar sut yr oeddent yn teimlo am les ac asedau dynol ac adeiledig eu cymunedau. Ar y cyfan, mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod tebygrwydd rhwng y Wardiau, a bod effeithiau parhaol y pandemig yn dal i'w gweld. Roedd pwysigrwydd cysylltiadau cymdeithasol ac asedau sy'n cefnogi'r cysylltiadau hynny wedi cael eu codi'n gyson fel elfennau hanfodol sy'n effeithio ar les cymunedol. Roedd rhinweddau personol y preswylwyr a'r ffordd maent yn dod at ei gilydd i gefnogi eraill wedi cael cryn sylw, a rhoddwyd sylw hefyd i'r mannau cymunedol sydd ar gael i ddod â phobl ynghyd er mwyn hwyluso cysylltiadau cymdeithasol.
Roedd ymdeimlad amlwg o bryder hefyd ynghylch materion y mae angen gweithredu arnynt ar frys. Ar y cyfan, mae'r rhan hon o'r Prosiect yn dangos gwerth rhannu profiadau a chydweithio ar brosiectau sy'n cwmpasu cymorth cymdeithasol, y celfyddydau a diwylliant a'r amgylchedd. Mae hefyd yn nodi y byddai'n werth i'r Wardiau ddod ynghyd i sicrhau y caiff lleisiau'r cymunedau eu clywed ac y gweithredir arnynt mewn polisïau sy'n effeithio ar eu lles.

# 4. Digwyddiad cymunedol

Cynhaliwyd y digwyddiad ar 24 Mai 2022 yn Neuadd Goffa Solfach i gyflwyno canfyddiadau'r ymchwil i'r Wardiau. Pwrpas y digwyddiad oedd rhannu canfyddiadau'r gwaith ymchwil ac i gael adborth ar y cyfleoedd arfaethedig i gydweithio. Roedd 72 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad gan gynnwys arweinwyr cymunedol ac arweinwyr busnes, cynghorwyr cymunedol, cynghorwyr sir a chynrychiolwyr sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

Roedd y tri CAR ac un Ymddiriedolwr wedi rhoi cyflwyniad o Ganolfan Gymunedol Mount. Dilynwyd y cyflwyniadau gyda thrafodaeth wedi'i chadeirio a oedd yn canolbwyntio ar y sleid isod. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cael eu hannog i gwblhau arolwg byr ar ddiwedd y cyfarfod i roi eu barn am y cyfarfod, i roi unrhyw syniadau pellach ac i nodi a ydynt am gael eu cynnwys mewn yn y datblygiadau. (Gweler Atodiad 2 i weld canlyniadau'r arolwg)



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

Together
For
Change




## 4.1 Pwyntiau a godwyd gan y rhai a oedd yn bresennol

### 4.1.1 Meithrin cysylltiadau

Roedd y Prosiect 4Wards yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol wrth greu cysylltiadau y gellid adeiladu arnynt, ac ystyriwyd bod y digwyddiad ei hun yn rhoi cyfle da i rwydweithio. Mae meithrin perthynas gadarnhaol gyda gwasanaethau statudol yn cael ei weld fel ffactor pwysig yn llwyddiant ymdrechion y dyfodol, ond teimlwyd bod profiad blaenorol yn anghyson.

- Mae Rhwydweithiau Cymunedol Integredig (ICN) a Thimau Aml-asiantaeth (MAT) yn gweithredu ar draws sectorau ac mae angen iddynt wybod a deall asedau cymunedau.
- Mae angen deall profiad cymunedau o ran darparu gwasanaethau.
- Cydgysylltu â llais y gymuned a defnyddio asedau cymunedol i greu dull mwy cyfannol o ymdrin â lles.

### 4.1.2 Ystyriaethau polisi

- Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn faes allweddol sydd o ddiddordeb.
- Rhoi cymorth ac annog landlordiaid i helpu i gynnal a chadw stoc o eiddo sydd ar gael i'w gosod yn hir dymor.

### 4.1.3 Cynghorau Tref a Chymuned

- Codi uchelgais Cynghorau Tref a Chymuned am nad ydynt wedi'u defnyddio eto.
- Nid yw llawer o Gynghorau Tref a Chymuned yn weithredol. Mae etholiadau'n gostus ac yn drafferthus. Yn aml, caiff etholiadau Solfach eu herio sy'n costio £5000 iddynt. Roedd y gynulleidfa yn cefnogi'r syniad o ddileu'r gost.
- Byddai ymgysylltiad â Neuadd y Sir yn ddylanwadol pe bai gweithgareddau ar lefel y sir yn cael eu cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned.

### 4.1.4 Busnesau

- Maen nhw'n ased allweddol mewn cymunedau ac nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol.
- Dod â'r sectorau at ei gilydd a chydnabod gwerth a rôl masnach mewn cymunedau.



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

- Mae gan lawer o arweinwyr busnes y gallu i wario ar eu cymuned ac maent yn barod i rannu profiadau a gwybodaeth. Roedd y gynulleidfa yn barod iawn i dderbyn yr awgrym hwn.

### 4.1.5 Gwirfoddoli

- Roedd rhai o'r farn nad oedd gan wirfoddolwyr fawr o gefnogaeth, a bod angen cyfleoedd i rannu problemau, i rwydweithio a chael cyngor.
- Er mwyn ychwanegu at y ddarpariaeth bresennol, mae'n bosibl y bydd Fforwm Adeiladau Cymunedol Sir Benfro a Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddol Sir Benfro yn cael eu hadfywio.
- Yn aml, nid yw pobl iau yn gallu rhoi o'u hamser.
- Mae llai o ddiddordeb mewn gwirfoddoli mewn ardaloedd lle mae tlodi economaidd yn uchel.

## 4.2 Yr arolwg

Roedd 30 o bobl wedi cwblhau'r arolwg byw, sef cyfradd ymateb o 43%.  O'r bobl hynny, roedd 64% yn cynrychioli sefydliadau, 23% yn annibynnol, roedd 10% wedi dweud eu bod yn mynychu'r cyfarfod fel cynrychiolydd ac fel person annibynnol, ac ni chafwyd ateb gan un cyfranogwr. Roedd y sefydliadau yn amrywio o fentrau cynaliadwy a gofal cymdeithasol i fusnesau a sefydliadau twristiaeth (gweler atodiad 4 - canlyniadau arolwg).

Ar y cyfan, roedd y digwyddiad wedi cyflawni ei amcanion. Er y nodir nad oedd pawb a oedd yn bresennol wedi cwblhau'r arolwg, yn bennaf, roedd y rhai a oedd wedi'i gwblhau o'r farn bod y digwyddiad â'r wybodaeth yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol. Roedd y mwyafrif wedi dweud yr hoffent gael gwybod am gynnydd y prosiect, gyda 64% yn dweud yr hoffent fod yn rhan o'r datblygiadau. Noder hefyd na chafwyd adborth negyddol gan unrhyw un o'r ymatebwyr. I gloi, roedd 83% o ymatebwyr yn ystyried y digwyddiad fel un defnyddiol, sy'n allweddol o ystyried pwysigrwydd ymgysylltiad yng nghanfyddiadau'r gwaith ymchwil.

# 5. Ystyriaethau pellach o ran cyfleoedd i gydweithio

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn y Wardiau unigol â sylwadau a wnaed yn y digwyddiad ac yng nghyfarfodydd pellach y Bwrdd Prosiect.  Fel y trafodwyd yn adran 3, mae'r gwaith ymchwil ar draws y pedair Ward wedi nodi tebygrwydd allweddol. Gallai cydweithio fod yn gyfle i fynd i'r afael ag anghenion a diffygion allweddol yn yr ardaloedd. Mae tebygrwydd mawr i'w weld yn y thema bod asedau yn cefnogi lles y Wardiau, a allai helpu i hwyluso'r gwaith o gydweithio am fod y cymunedau yn rhannu'r un ymdeimlad o werth.  Cyn trafod unrhyw gyfleoedd cynhwysfawr i gydweithio ar draws y Wardiau, mae angen tynnu sylw at syniadau a phrofiad blaenorol y gymuned o gydweithio ar draws y Wardiau.

## 5.1 Ward Llanrhian

Mae Ward Llanrhian yn awyddus iawn i gydweithio ar draws y Wardiau. Roeddent o'r farn y byddai cydweithio o'r fath yn creu'r posibilrwydd o efelychu prosiectau llwyddiannus mewn Wardiau eraill. Er enghraifft, roedd nifer o drigolion wedi mynegi awydd i efelychu model Gofal Solfach yn y Ward. Mae Cymuned Gysylltiedig Llanrhian hefyd yn ystyried sefydlu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol; felly, gallai fod yn fuddiol iddynt gyfathrebu gydag Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Solfach i ddysgu am y broses a chefnogi ei gilydd.

Model arall sy'n gweithio'n dda yw Hwb Bwyd Cynhyrchwyr Penfro sy'n gweithredu y tu allan i Dyddewi. Roedd trigolion wedi cyflwyno'r syniad o ehangu'r model hwn, gan gynnig Hwb Bwyd Cynhyrchwyr Penfro yn wythnosol ym mhob un o'r pedair Ward. Byddai hyn yn galluogi mynediad fforddiadwy i fwyd a gynhyrchir yn lleol. Nodwyd hyn fel ffactor sy'n effeithio'n gadarnhaol ar les cymunedol yn ogystal â chynaliadwyedd. Mae syniadau eraill ar gyfer cydweithio ar draws Wardiau yn cynnwys mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus, a threfnu digwyddiadau a theithiau.



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

## 5.2 Ward Solfach Breudeth

Mae'r gymuned yn rhoi pwyslais cryf ar asedau sylweddol. Yn y gorffennol, mae trigolion wedi sefydlu amrywiaeth o fentrau ar lawr gwlad sy'n cael effaith gadarnhaol ar les. Mae'r Ward hefyd wedi dangos gallu blaenorol i gymryd rhan mewn prosiectau llwyddiannus ar draws y Ward gan gynnwys yr Ŵyl Syniadau a rhannu gwybodaeth drwy'r Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol.

Roedd y rhan fwyaf o'r gymuned yn barod i dderbyn cydweithio o'r fath ac roeddent yn teimlo y gallai hyn fod o fudd i fynd i'r afael â chyfleoedd a phryderon allweddol. Er enghraifft, efelychu prosiectau llwyddiannus, cynnal digwyddiadau fel yr Ŵyl Syniadau, ymgyrchu dros newid polisi a meithrin perthnasau cryfach â'r awdurdod lleol.

Yr awgrym cyffredinol er mwyn meithrin cysylltiadau rhwng y mentrau sy'n bodoli eisoes i wella lles ar draws y Wardiau oedd creu Fforwm Lles. Byddai hyn yn hwyluso'r sgwrs ac yn annog y Wardiau i rannu'u profiad a chydweithio i greu atebion cynaliadwy ar lawr gwlad. Byddai ariannu rolau datblygu yn y Wardiau yn galluogi'r Prosiect 4Wards i gyrraedd cyfnod gweithredu, gan roi'r gwaith ymchwil hwn ar waith yn y cymunedau.

## 5.3 Ward Tyddewi

Ceir cyfleoedd i gydweithio drwy themâu fel cysylltu, cynaliadwyedd a diogelwch. Roedd ymdeimlad bod lles y gymuned yn cael ei gefnogi drwy rannu gwerthoedd a chysylltiadau. Mae asedau diwylliannol a chymunedol yn cael eu cysylltu ar draws y Wardiau drwy hanes teuluol a busnesau. Roedd trigolion yn teimlo y byddai pob Ward yn elwa o gael canolfannau cymunedol mwy cysylltiedig a chynaliadwy. Drwy gefnogi rhwydwaith o ganolfannau a gweithwyr cysylltu cymunedau, a thrwy fanteisio ar rwydweithio wyneb yn wyneb ac adnoddau digidol, mae'n bosibl cynyddu ymgysylltiad a chynhwysiant. Gallai twristiaeth adfywiol a chynaliadwy hefyd gynrychioli prosiect thematig eang i'w ddatblygu.

## 5.4 Ward Dwyrain Aberdaugleddau

Codwyd nifer o faterion sy'n gysylltiedig â'i gilydd yn ystod y prosiect ymchwil hwn i Ddwyrain Aberdaugleddau; anghydraddoldeb economaidd a'i oblygiadau, gwella iechyd meddwl a'r angen am adnoddau digonol. Roedd y gwaith ymchwil hefyd wedi tynnu sylw at sawl cyfle sy'n ymateb yn uniongyrchol i angen gan gynnwys creu adnodd er mwyn meithrin gallu.

Tynnwyd sylw at bosibiliadau fel sefydlu cynllun mentora rhwng cyfoedion a chydnabod hyder mewn gwirfoddoli a thynnu sylw at gyfleoedd gwirfoddoli, ynghyd â chyfleoedd i rannu profiadau.

Gallai cyfarfodydd misol neu bob deufis fod yn fuddiol hefyd, i gadw mewn cysylltiad a rhannu gwybodaeth am gyfleoedd ariannu, problemau, prosiectau, ac ati. Mae arweinwyr cymunedol yn credu y gallai hyn fod yn gyfle i roi cymorth i eraill a thrafod problemau.

Codwyd pryderon am nifer o bolisïau cyffredinol hefyd yn ystod y gwaith ymchwil; yr angen i rannu pŵer a datganoli arian i'r Wardiau; edrych ar ffyrdd y gall cynrychiolwyr gwleidyddol y Wardiau ddod ynghyd mewn ymdrech unedig.



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

## 6. Y Camau Nesaf

1. Gwneud gwaith pellach ar gryfhau cysylltiadau ac ymgysylltu cymunedol, ac edrych ar gynaliadwyedd y cymunedau sy'n cymryd rhan.
2. Ehangu gwerth cymdeithasol ac economaidd asedau ar draws y Wardiau.
3. Cryfhau gofal cymdeithasol a rhoi cefnogaeth i bawb fyw'n dda. Lleihau'r galw a'r ddibyniaeth ar wasanaethau drwy rannu gwybodaeth a rhoi prosiectau llwyddiannus a chynaliadwy ar waith sy'n cynnwys: Cymunedau Cysylltiedig Llanrhian, Gofal Solfach, Pryd ar Glud, a Mentrau Micro a Mentrau Cymdeithasol (yr ail gyda Neyland) mewn gofal cartref.
4. Cryfhau cydlyniant ac ymgysylltiad cymunedol yn Aberdaugleddau, meithrin iechyd corfforol a meddyliol da ac adeiladu partneriaethau ar hyd y Wardiau yn y Dref.
5. Adeiladu'r bartneriaeth 4Wards bresennol i gynnwys partneriaid busnes sy'n awyddus i gyfrannu adnoddau i'r agenda hwn.
6. Cyfrannu at Rwydweithiau Cymunedol Integredig i greu cynghrair agosach gyda'r gwasanaethau statudol mewn perthynas â byw'n dda.
7. Yn unol â dilyn model cyfannol o fyw'n dda, sicrhau y gweithredir yn unol ag ystyriaethau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a hyfforddiant, tai a thrafnidiaeth. Bydd cydweithio ar draws y Wardiau ar Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol gydag Academi arfaethedig Sir Benfro yn ddechrau da i wneud hyn.
8. Cychwyn blaenoriaethu'r gwaith o weithredu ar y thema o effeithiau adfywiol twristiaeth gynaliadwy.
9. Datblygu'r prosesau, y mecanweithiau a'r strwythurau i sicrhau parhad perthnasau ac i sicrhau y cyflawnir gwaith yn llwyddiannus. Bydd hyn yn cynnwys y gwaith o recriwtio gweithwyr datblygu cymunedol, sefydlu Fforwm Byw'n Dda, digwyddiadau, lobïo a chysylltu rhwydweithiau.
10. Rhannu'r hyn sydd wedi'i ganfod gan 4Wards yn y Sir a'r Rhanbarth er mwyn tanio'r gwaith gweithredu mewn mannau eraill.
11. Darparu lleoliadau cymunedol i roi hyfforddiant mewn gwaith cymunedol a gwaith trydydd sector.
12. Gwerthuso gwerth cymdeithasol ac economaidd gan gynnwys cymariaethau â phrosiectau eraill fel Cynnal y Cardi a Preseli Cares i ddechrau sefydlu gwerthusiad sy'n seiliedig ar brosiectau arloesol eraill.



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

Together
For
Change

## Atodiad 1 - Grŵp llywio

| | |
|---|---|
| Sue Denman | Arweinydd y prosiect |
| Jessie Buchanan | Arweinydd y prosiect |
| Becky Lloyd | Ymchwilydd Gweithredu Cymunedol Tyddewi |
| Ella Starling | Ymchwilydd Gweithredu Cymunedol Llanrhian |
| Rachel Kelway-Lewis | Ymchwilydd Gweithredu Cymunedol Solfach a Breudeth |
| Y Cynghorydd Neil Prior | Cynghorydd Sir Ward Llanrhian |
| Y Cynghorydd Mark Carter | Cynghorydd Sir Ward Solfach a Breudeth |
| Alun York | Maer Tyddewi (tan fis Ebrill 2022) |
| David Lloyd | Cynghorydd Sir Tyddewi (tan fis Ebrill 2022) |
| Y Cynghorydd Bethan Tudor Price | Cynghorydd Sir Tyddewi (o fis Ebrill 2022) |
| Josh Philips | Cadeirydd Cyngor Cymuned Solfach (tan fis Ebrill 2022) |
| Ifor Thomas | Cadeirydd Cyngor Cymuned Solfach (o fis Ebrill 2022) |
| Mollie Roch | Gofal Solfach |
| Y Cynghorydd Guy Woodham | Cynghorydd Sir Aberdaugleddau |



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

Together For Change

## Atodiad 2 - Cynllun 10 Pwynt Gyda'n Gilydd dros Newid

1. Cytuno ar fodel lles cymdeithasol a model werdd sy'n seiliedig ar fodel lles i lywio ein cynlluniau, gan dwyn i gof cyd-destun polisi cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddwn hefyd yn datblygu gweledigaeth a strategaeth ar y cyd i ddiwallu anghenion amrywiol cymunedau Sir Benfro.
2. Gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig ac integredig i wneud y gorau o'n hadnoddau er mwyn cyflawni agenda ataliol i gefnogi lles.
3. Rhannu polisïau a strategaethau pŵer â chymunedau - sut bynnag y'u diffinnir - i gyd-fynd â'r cyd-destun polisi, er mwyn sicrhau bod eu hanghenion sydd wedi'u mynegi yn cael eu diwallu'n gyson.
4. Blaenoriaethu'r gwaith o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau niferus sy'n endemig yn ein poblogaeth, gan gynnwys y problemau hynny sydd wedi'u gwaethygu gan y pandemig.
5. Mynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gwtogi cadwyni cyflenwi bwyd, nwyddau a gwasanaethau, a rhoi modelau caffael cynaliadwy ar waith a fydd yn gwella economïau lleol.
6. Adolygu anghenion ariannu grwpiau a arweinir gan y gymuned: symleiddio prosesau ariannu a'u gwneud yn gynhwysol cefnogi a datblygu'r gallu i godi arian yn lleol; cyfrannu at y gwaith o greu cronfeydd buddsoddi cymdeithasol a chymunedol, a chefnogi'r gwaith o greu incwm cynaliadwy drwy roi asedau i'r gymuned i'w perchnogi.
7. Cefnogi twf ac effeithlonrwydd gweithredu cymunedol ac arweinyddiaeth gymunedol drwy hwyluso'r gwaith o ddysgu ar y cyd, rhoi cyngor wedi'i deilwra a thrwy gryfhau prosesau democrataidd lleol drwy roi llais cryfach i gymunedau yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n cynnwys pobl ifanc hefyd.
8. Hyrwyddo, cefnogi a dathlu'r gwaith o wirfoddoli gan gynnwys gwirfoddoli o'r gweithle.
9. Ymrwymo i'r newid diwylliannol sydd ei angen i gyflawni'r uchod, drwy arweinyddiaeth gref a thrwy greu cynlluniau i gyflwyno trawsnewid sefydliadol.
10. Hyrwyddo polisïau a chamau gweithredu ar gynhwysiant digidol i bob cymuned a phob oedran.



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

# Atodiad 3 - Amserlen y Prosiect

**Rhan 1 - Cyflwyniad i Brosiect Cymunedol 4Wards**
**Dydd Mawrth 8 Mawrth 10:00 - 12:30 (Clwb Solfach)**
Cyflwyniad i Brosiect 4Wards, cyd-destun, cefndir, nodau gan gynnwys model cyfannol i ymdrin ag iechyd a'i oblygiadau, y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, Gyda'n Gilydd Dros Newid a'r Cynllun Deg Pwynt.
**Dydd Mercher 9 Mawrth 14:00 - 16:30 (Clwb Solfach)**
Asedau Cymuned - cyflwyniad a thrafodaeth ar yr Adroddiad Asedau gyda Dr Susan Chichlowska.
**Dydd Iau 10 Mawrth 14:00 - 17:00 (Zoom)**
Ariannu, gweinyddu a logisteg 4Wards
**Rhan 2 - Gwerthuso, Datblygu Cymunedol a Lles Cymunedol**
**Dydd Mercher 16 Mawrth 13:00 - 16:30 (Eglwys Gadeiriol Tyddewi)**
Gwerthuso ac ymchwil - archwilio a chreu Theori Newid
**Dydd Iau 17 Mawrth 14:00 - 15:00 (Zoom)**
Cynllunio ac ystyried sgiliau ymchwil ac adnoddau ymchwil
**Dydd Llun 4 Ebrill, Curtis House, Tyddewi**
Hyfforddiant ar les unigol a lles corfforol i gefnogi'r gwaith o feithrin rôl datblygu cymunedol.
**Dydd Llun Mawrth 28, yr Harbour Inn, Solfach**
Hyfforddiant ar weithio dull gweithredu gyda thystiolaeth a chefnogi Cymuned Ymholi. Wedi'i hwyluso'n allanol gan Brosiect DEEP, Prifysgol Abertawe.



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*

## Atodiad 4 - Canlyniadau'r arolwg

**'Hoffech chi gadw mewn cysylltiad â 4Wards?'**

- 90% yn dymuno cadw mewn cysylltiad
- 3% wedi dweud efallai yn y dyfodol
- Ni roddodd 7% ateb

**'Hoffech chi gymryd rhan yn 4Wards?'**

- 64% yn awyddus i gymryd rhan
- 33% wedi dweud efallai yn y dyfodol
- Ni roddodd 3% ateb

**Adborth**

**'A wnaeth y digwyddiad fodloni eich disgwyliadau?'**

- 73% wedi dweud bod y digwyddiad wedi bodloni eu disgwyliadau
- 20% wedi dweud bod y digwyddiad yn rhannol wedi bodloni eu disgwyliadau
- Ni atebodd 7%

**'A oedd y digwyddiad hwn yn ddiddorol i chi?'**

- 93% wedi dweud naill ai 'do' neu 'yn rhannol'
- Ni atebodd 7%

**'A oedd y wybodaeth a gyflwynwyd gan yr Ymchwilwyr Gweithredu Cymunedol yn ddiddorol i chi?'**

- 93% yn dweud bod y wybodaeth naill ai'n ddiddorol neu'n rhannol ddiddorol
- Ni atebodd 7%



UK Government
Llywodraeth y DU
This project is funded by the UK Government through the UK Community Renewal Fund

*Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU*